# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom** | **P Gareth Williams** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 27 Mehefin 2022 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 13.30 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDCC@senedd.cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalen 1)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 - Papur 1 - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**2.1 SL(6)210 - Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2022**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.45)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**3.1 SL(6)212 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 2 - 3)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 2 – Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)214 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 4 – 6)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 3 – Adroddiad drafft

LJC(6)-19-22 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Llywydd, 14 Mehefin 2022

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**3.3 SL(6)213 - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022**

(Tudalennau 7 – 8)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 5 – Adroddiad drafft

## 4 Fframweithiau cyffredin

(13.45 - 13.50)

**4.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Weinidog yr Economi, a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Taliadau Hwyr a Chaffael**

(Tudalennau 9 – 15)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 6 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Weinidog yr Economi, a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 23 Mehefin 2022

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 - 13.55)

**5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022**

(Tudalen 16)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 7 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 20 Mehefin 2022

## 6 Papurau i'w nodi

(13.55 - 14.00)

**6.1 Mesur Hawliau Llywodraeth y DU**

(Tudalennau 17 - 19)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 8 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 22 Mehefin 2022

LJC(6)-19-22 – Papur 9 – Llythyr gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, 22 Mehefin 2022 [Saesneg yn unig]

**6.2 Gohebiaeth gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, Awyr Iach Cymru a Greener UK at y Prif Weinidog: Mae Cymru angen mynediad at gyfiawnder amgylcheddol**

(Tudalennau 20 - 22)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 10 – Llythyr gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, Awyr Iach Cymru a Greener UK at y Prif Weinidog, 22 Mehefin 2022

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

## 8 Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd: Rôl y pwyllgor cyfrifol

(14.00 - 14.20) (Tudalennau 23 - 57)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 11 – Nodyn briffio

LJC(6)-19-22 – Papur 12 – Rheol Sefydlog 26C: Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

LJC(6)-19-22 – Papur 13 – Canllawiau i ategu'r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C ar Filiau Cydgrynhoi

## 9 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein: Trafod yr adroddiad drafft

(14.20 – 14.35) (Tudalennau 58 – 62)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 14 – Adroddiad drafft

## 10 Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE

(14.35 – 14.45) (I ddilyn)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-22 – Papur 15 – Ymateb drafft i Bwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 27 Mehefin 2022

## SL(6)210 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i fyfyrwyr, sy'n cael benthyciad at gostau byw oddi wrth Weinidogion Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 mewn perthynas â chwrs israddedig llawnamser, gael budd o ostyngiad yng ngweddill eu benthyciad o hyd at £1,500 pan eu bod yn dechrau ad-dalu eu benthyciad. Ni fydd hyn ar ffurf cyfandaliad arian parod; yn hytrach bydd gweddill benthyciad unigolyn yn cael ei leihau gan y swm priodol y diwrnod ar ôl i ad-daliad cyntaf benthyciwr gael ei wneud.

Dim ond unwaith y gall myfyriwr gael diddymiad rhannol; ni all gael diddymiad rhannol mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2022/23 os yw eisoes wedi cael diddymiad mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol. Ni fydd gan fyfyriwr hawl i ddiddymiad rhannol os oes unrhyw daliadau neu gosbau heb eu talu neu os yw'n torri ei gytundeb benthyciad neu unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

**Fe'u gwnaed ar:** 09 Mehefin 2022

**Fe'u gosodwyd ar:** 13 Mehefin 2022

**Yn dod i rym ar:** 01 Awst 2022

# SL(6)212 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a diben

O dan bwerau sy'n deillio o adran 537A o Ddeddf Addysg 1996, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n dynodi personau ("Personau Rhagnodedig") y gallant rannu data am ddisgyblion ysgol â hwy.

Mae'r Personau Rhagnodedig wedi'u rhestru yn rheoliad 5(2) o *Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007* ("Rheoliadau 2007") Mae'r rhestr yn cynnwys, ymhlith eraill: awdurdodau lleol, Cymwysterau Cymru a'r Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2007 i ychwanegu Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ("UCAS") at y rhestr o Bersonau Rhagnodedig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu mai diben y Rheoliadau yw caniatáu i Weinidogion Cymru rannu data prydau ysgol am ddim cysylltiedig â disgyblion sy'n gadael yr ysgol gydag UCAS "i gynorthwyo gyda derbyniadau i brifysgolion er mwyn sicrhau bod cynigion yn cael eu gwneud i ddysgwyr difreintiedig a bod cyfranogiad mewn Addysg Uwch yn cael ei ehangu". Mae'n darparu ymhellach fod y diwygiad yn angenrheidiol i sefydlu sail gyfreithiol o dan ddeddfwriaeth diogelu data ar gyfer rhannu data o'r fath.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *Bernir bod y gwaith diwygio hwn yn un brys er mwyn cael data yn eu lle ar gyfer ei ddefnyddio gan brifysgolion yn y broses glirio a chadarnhau ym mis Awst. Felly ni fyddai unrhyw ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar gam ffurfiannol y broses o ddatblygu polisi […] ac felly ni chafodd ei ystyried yn briodol yn yr achos hwn.*

Er bod y Memorandwm Esboniadol yn egluro pam mae'r Rheoliadau'n fater o frys cymharol, nid yw'n esbonio pam maent wedi dod yn fater o frys. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro pam na chafodd y Rheoliadau eu gwneud yn gynt, yn barod ar gyfer proses glirio'r prifysgolion ym mis Awst.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Mehefin 2022**

Eitem 3.2

# SL(6)214 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”) yn gosod rhwymedigaethau ar wahanol bersonau at ddiben atal mynychder neu ledaeniad haint neu halogiad, diogelu rhagddo, ei reoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd iddo.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2010 drwy:

- ychwanegu “brech y mwncïod” at y rhestr o glefydau a syndromau yn Atodlen 1 y mae dyletswydd ar ymarferwyr meddygol i hysbysu awdurdod lleol perthnasol amdanynt os credir bod clefyd neu syndrom o’r fath ar glaf y maent yn ei wasanaethu.

- ychwanegu “firws brech y mwncïod” at y rhestr o gyfryngau achosol yn Atodlen 2 y mae dyletswydd ar weithredwyr labordai diagnostig i hysbysu awdurdod lleol perthnasol amdanynt os ydynt yn darganfod cyfrwng, neu dystiolaeth o gyfrwng o’r fath, mewn sampl dynol.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn “gwneud negyddol” gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r

esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 14 Mehefin 2022.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl i ymateb i'r achosion presennol o frech y mwncïod yn y DU. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymarferwyr meddygol hysbysu swyddog priodol yr awdurdod lleol perthnasol am unrhyw achosion tybiedig o frech y mwncïod. Yn ogystal, bydd yn rhaid i labordai diagnostig adrodd os ydynt yn nodi firws brech y mwncïod fel cyfrwng achosol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Gan fod y Rheoliadau'n darparu gwelliant cyfyngedig, sy'n effeithio ar nifer fach o unigolion ac nad yw'n adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Mehefin 2022**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Mehefin 2022

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2022**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu nad yw'r offeryn statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol. Rwy’n bwriadu gosod yr offeryn hwn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig pan fydd y Rheoliadau wedi'u cofrestru.

Mae’r offeryn statudol hwn yn diwygio Atodlen 1 (Clefydau a Syndromau Hysbysadwy) ac Atodlen 2 (Cyfryngau Achosol) i Reoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 at ddibenion cynnwys brech y mwncïod a firws brech y mwncïod, yn y drefn honno. Mae swyddogion o’r farn bod y gwelliannau hyn yn briodol o ystyried y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil yr achosion presennol o frech y mwncïod yn y DU.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl i ymateb i'r achosion presennol o frech y mwncïod yn y DU. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymarferwyr meddygol hysbysu swyddog priodol yr awdurdod lleol perthnasol am unrhyw achosion tybiedig o frech y mwncïod. Yn ogystal, bydd yn rhaid i labordai diagnostig adrodd os ydynt yn nodi firws brech y mwncïod fel cyfrwng achosol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(6)213 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau"). Mae'r safonau hyn yn disodli'r cynlluniau iaith Gymraeg a ddarperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) ("y Rheoliadau") yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion. Mae'r Rheoliadau yn gwneud y safonau yn benodol gymwys i berson a restrir yn Atodlen 6 ("y cyrff"). Awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff hynny mewn perthynas â'r safonau a bennir, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a nodir yn rheoliad 3(2). Y cyrff hynny yw:

- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 ("Rheoliadau 2018"), a oedd yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru. Fel arfer mae rhif yn enw un o gyfres o Offerynnau Statudol yn cyfeirio at y nifer a wnaed yn y flwyddyn benodol. Yn yr achos hwn mae'r rhif yn cyfeirio at y gyfres gyfan o Reoliadau Safonau, sy'n parhau o Reoliadau 2018, yn yr un modd ag y mae gorchmynion cychwyn wedi'u rhifo.

Mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio'r wyddor Gymraeg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg, oherwydd natur a phwnc y Rheoliadau. Mae'r arddull hon yn wahanol i'r arddull rifo arferol a fabwysiadwyd mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru.

Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar Reoliadau drafft Safonau'r Gymraeg rhwng 16 Mawrth 2020 a 2 Hydref 2020. Yn sgil y pandemig Covid, estynnwyd yr ymgynghoriad fel bod pawb sydd â diddordeb yn y Rheoliadau drafft yn cael cyfle i rannu eu

barn. Daw'r Rheoliadau i rym ar 31 Hydref 2022, os yw'r Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Cyflwynir pob Atodlen gan reoliad penodol, ac mae pob Atodlen yn cyfeirio'n ôl at y rheoliad penodol hwnnw. Fodd bynnag, mae'r Atodlenni i'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio'n ôl at y rheoliadau anghywir.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Mehefin 2022**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

| | |
|---|---|
| Vaughan Gething AS | Rebecca Evans AS |
| Gweinidog yr Economi | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru |

23 Mehefin 2022

Annwyl Weinidogion,

Fframweithiau Cyffredin – Caffael a Thaliad Hwyr

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 25 Chwefror 2022 a 1 Mawrth 2022, yn y drefn honno, yn mynd i'r afael ag ymholiadau cychwynnol y Pwyllgor ynghylch y Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Taliadau Hwyr a Chaffael (y fframweithiau).

Ar ôl ystyried eich ymatebion priodol, mae gan y Pwyllgor y sylwadau canlynol am y fframweithiau a'r dull o ymdrin â'r fframweithiau yn fwy cyffredinol.

**Datrys anghydfodau a gwahaniaethau polisi**

- Yn ei lythyr, gofynnodd y Pwyllgor i chi am effaith pob fframwaith ar wneud deddfau a pholisïau yng Nghymru. Yn eich ymatebion, dywedasoch nad oedd y naill fframwaith na'r llall yn cyfyngu ar bwerau Llywodraeth Cymru na'r Senedd. Mewn perthynas â'r fframwaith Caffael, dywedasoch wrth y Pwyllgor mai diben y fframwaith yw "ystyried effaith unrhyw wahaniaethau rhwng polisïau ar y gwledydd eraill – ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio at ddiben ymgynghori na gwneud penderfyniadau". Mae'r Pwyllgor yn deall y cytundeb rhynglywodraethol y byddai fframweithiau ledled y DU i ddisodli llyfr rheolau'r UE yn cael eu negodi'n rhydd rhwng pedair llywodraeth y DU ac y byddai'r rhain yn cael eu cynllunio i reoli gwahaniaethau rhwng y pedair gweinyddiaeth. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y ddau fframwaith yn cynnwys adrannau ar wneud penderfyniadau a phennu prosesau i lywodraethau wneud penderfyniadau ar y cyd mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i

ddatganoli. Os bydd llywodraeth arall yn anghytuno â chynnig gan Lywodraeth Cymru, neu i'r gwrthwyneb, gellir codi anghydfod. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau na allai hyn, yn ymarferol, gyfyngu ar Lywodraeth Cymru na'r Senedd, y tu hwnt i ddarpariaethau'r farchnad fewnol o fewn y fframweithiau.

- Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut yr asesodd risgiau a manteision ymrwymo i'r fframweithiau cyffredin hyn, gan gynnwys unrhyw derfynau posibl i'w hannibyniaeth reoleiddiol, y tu hwnt i'r rhai a oedd yn bodoli o fewn llyfr rheolau'r UE, y mae'r rhain yn eu disodli.

- Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd y prosesau gwneud penderfyniadau yn y ddau fframwaith yn gweithio'n ymarferol.

- Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau na fydd y fframweithiau, drwy bennu prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd, yn gallu cael eu defnyddio i gyfyngu ar rôl y Senedd wrth ddeddfu a gwneud polisïau ar gyfer Cymru, y tu hwnt i'r cyfyngiadau o fewn llyfr rheolau'r UE y maent yn eu disodli. Er enghraifft, os yw Aelod yn dymuno cyflwyno deddfwriaeth o fewn cwmpas y fframwaith Caffael, byddai Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i ymrwymiad i hysbysu llywodraethau eraill neu ymgynghori â hwy dri mis cyn eu cyflwyno. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y byddai rhanddeiliaid yn gallu cymryd rhan yn y prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd a sefydlir gan y fframweithiau, neu a yw hyn yn newid y darpariaethau sy'n bodoli o dan lyfr rheolau blaenorol yr UE.

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid os cyflwynir deddfwriaeth ddatganoledig i Gymru sy'n dod o fewn cwmpas y ddau fframwaith.

- Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cytundeb rhynglywodraethol na fydd y naill fframwaith na'r llall yn arwain at wanhau rôl seneddau a rhanddeiliaid wrth ddeddfu a gwneud polisi sy'n dod o fewn cwmpas y naill fframwaith neu'r llall, y tu hwnt i'r cyfyngiadau sy'n berthnasol i lyfr rheolau blaenorol yr UE.

- Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau na fydd y fframweithiau yn cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth wneud deddfau a pholisïau i Gymru, y tu hwnt i'r cyfyngaidau sy'n berthnasol i lyfr rheolau blaenorol yr UE..

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad i hysbysu'r Senedd pan fydd anghydfodau ar fframweithiau yn cael eu huwchgyflwyno i Weinidogion, ond nid yw'r naill fframwaith na'r llall yn pennu amserlenni ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r fframwaith Taliadau Hwyr hefyd yn darparu ar gyfer oedi camau gweithredu sy'n destun anghydfod.

- Byddai'r Pwyllgor yn croesawu esboniad ynghylch pam nad yw terfynau amser wedi'u pennu ar hyn o bryd yn y broses datrys anghydfodau, beth yw goblygiadau hyn ac a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y dylent fod. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu esboniad ynghylch pam nad yw'r fframwaith Caffael hefyd yn darparu ar gyfer oedi camau gweithredu sy'n destun anghydfod.

- Nodir bod yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol bellach wedi'i gwblhau, gyda chytundeb y gellir uwchgyfeirio anghydfodau o fframweithiau i broses newydd ryngweinidogol o ddatrys anghydfodau.
- Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r darpariaethau ymdrin â chwynion a dyfarnu a nodir yn y Fframweithiau yn ddigonol i ddatrys gwahaniaethau polisi rhwng gwledydd y DU. Mae pwysigrwydd datrys anghydfodau yn gadarn yn arbennig o bwysig i economi Cymru, sy'n dibynnu ar allforio cynnyrch a gwasanaethau i wledydd eraill y DU. Mae'r risg y bydd anghydfodau'n digwydd yn cael eu dwysáu gan densiynau rhynglywodraethol parhaus sy'n gysylltiedig â threfniadau cyfansoddiadol ar ôl Brexit.

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru pob fframwaith i adlewyrchu canlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Nodwn nad yw'r naill fframwaith na'r llall yn cynnig rôl ar gyfer cyngor annibynnol neu gyflafareddu o ran datrys anghydfodau.

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframweithiau hyn er mwyn caniatáu i lywodraethau geisio cyngor annibynnol neu gyflafareddu drwy broses gryfach o ddatrys anghydfodau.

- Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn darparu i'r llywodraethau geisio cyngor trydydd parti ar anghydfodau sy'n cael eu huwchgyfeirio i lefel ryngweinidogol, ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i anghydfodau gael eu datrys drwy gyflafareddu rhwymol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn lliniaru unrhyw risgiau sy'n deillio o ddiffyg proses annibynnol ryngweinidogol o ddatrys anghydfodau yn y meysydd fframwaith hyn, yn absenoldeb proses gryfach o ddatrys anghydfodau.

**Cyffredinol**

- Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ymgysylltu "llai manwl" â rhanddeiliaid ar gynnwys y fframwaith Caffael, tra bod crynodeb ar y fframwaith Taliad Hwyr wedi'i ddarparu i randdeiliaid.

- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr i'r Pwyllgor o randdeiliaid yng Nghymru yr ymgynghorwyd â hwy am bob fframwaith, gyda chrynodeb o'u sylwadau.

- Caiff ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adrodd yn flynyddol ar y fframweithiau ei groesawu. Nodir y disgwylir i unrhyw adroddiadau ar fframweithiau yn y dyfodol gael eu cyhoeddi.

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol y bydd unrhyw adroddiadau ar y cyd yn cael eu cyhoeddi. Hyd yn oed os na sicrheir cytundeb o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd yn ymrwymo yn unochrog i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar bob fframwaith.

- Croesewir hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid o bwyntiau adolygu sydd ar y gweill, gydag argymhellion y Senedd a rhanddeiliaid i'w hystyried fel rhan o'r broses adolygu. Nodir argymhelliad pwyllgor craffu'r Fframweithiau Cyfansoddiadol yn Nhŷ'r Arglwyddi y dylai'r Llywodraeth adrodd i seneddau ar ôl i'w hadolygiadau ddod i ben, ac y dylid cynnal ymgynghoriad agored â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses adolygu gyntaf.

- Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframweithiau er mwyn sicrhau y caiff eu hymrwymiadau i adrodd eu hadlewyrchu yn y fframweithiau. Argymhellir hefyd y dylid ceisio cytundeb rhynglywodraethol i gynnwys argymhellion Tŷ'r Arglwyddi ar adrodd i seneddau yn dilyn pob adolygiad, ac y dylai'r fframweithiau gynnwys ymgynghoriadau agored â rhanddeiliaid yn dilyn y broses adolygu gyntaf, fel rhan o'r fframweithiau.

**Caffael**

- Mae'r fframwaith yn nodi nad yw'r egwyddor y cytunwyd arni ar gyfer fframweithiau cyffredin ar reoli adnoddau cyffredin yn berthnasol i gaffael, sy'n golygu na fydd llywodraethau'n ystyried yr egwyddor hon wrth asesu cynigion polisi. Eich esboniad yw nad yw'r egwyddor hon yn berthnasol oherwydd "nid yw'r cyfle i rannu adnoddau yn berthnasol". Fodd bynnag, mae fframweithiau eraill yn awgrymu darllen yr egwyddor hon yn ehangach, gan awgrymu ei bod yn ymwneud ag adnoddau amgylcheddol a rennir, nid eiddo'r llywodraeth yn unig.

- Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cytundeb rhynglywodraethol bod llywodraethau perthnasol y Deyrnas Unedig yn ystyried rheoli adnoddau cyffredin wrth wneud penderfyniadau drwy'r fframwaith.

- Mae'r fframwaith yn nodi prosesau newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau a nodir eich sylwadau y bydd y fframwaith yn cynnig yr un cyfle i wahaniaethu ag o dan gyfraith yr UE.

- Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau nad yw'r fframwaith yn cynnig llai o gyfle i wahaniaethu nag a fyddai wedi bod yn bosibl yn yr UE.

- Gofynnodd y Pwyllgor i chi a oedd y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn dod o fewn cwmpas proses gwneud penderfyniadau'r fframwaith, ac ymatebasoch i hynny fod llywodraethau eraill wedi cael gwybod am y Bil.

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith i egluro mai dim ond i newidiadau sy'n mynd y tu hwnt i faterion sy'n gymwys o dan gyfraith flaenorol yr UE y mae ei phrosesau gwneud penderfyniadau yn berthnasol.

- Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Senedd pan mae unrhyw gynnig polisi neu ddeddfwriaethol yn ddarostyngedig i brosesau gwneud penderfyniadau'r fframwaith.

- Rhan o egwyddorion craidd y fframwaith yw sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn gweithredu’n briodol. Nodir eich sylwadau y bydd llywodraethau'n ystyried effaith gwahaniaethau mewn polisi caffael ar ardaloedd trawsffiniol drwy'r fframwaith.

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad i ystyried effaith gwahaniaethau mewn polisi caffael. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn ystyried effaith unrhyw wahaniaethau mewn cyfraith a pholisi caffael ar fusnesau sy'n gweithredu ar draws ffiniau.

- Mewn ymateb i'n cwestiwn ar effaith Deddf Rheoli Cymhorthdal y DU ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru, dywedasoch nad oedd gennych ddigon o fanylion i wybod ar hyn o bryd ac y bydd llawer yn dibynnu ar yr is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Bil. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg eglurder hwn, yn enwedig gan fod y Senedd wedi gwrthod rhoi ei chydsyniad ar gyfer y Bil.

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu effaith y Ddeddf Rheoli Cymhorthdal ar gaffael yng Nghymru a gwneud penderfyniadau drwy'r fframwaith a rhoi gwybod i'r Senedd am unrhyw ryngweithio rhwng y llywodraethau perthnasol ar hyn.

- Un o fwriadau'r fframwaith yw sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol a galluogi negodi a gweithredu cytundebau rhyngwladol. Yn eich ymateb, darparwyd rhywfaint o wybodaeth gennych am weithgarwch y DU-UE a gweithgarwch rhyngwladol o dan y fframwaith a nodir y wybodaeth hon.

- Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar unrhyw weithgarwch rhwng y DU a'r UE a gweithgarwch rhyngwladol o fewn cwmpas y fframwaith fel rhan o'r adroddiadau rheolaidd ar y fframwaith, gyda manylion am weithgarwch diweddar Llywodraeth Cymru, manylion safbwyntiau cyffredin y cytunwyd arnynt gyda phartïon eraill at ddibenion ymgysylltu rhyngwladol, a gwybodaeth am ddatblygiad neu rwymedigaethau rhyngwladol sydd ar y gweill a fyddai'n dod o fewn cwmpas y fframwaith.

**Taliadau hwyr**

- Gofynnodd y Pwyllgor i chi am y cysylltiadau rhwng y fframwaith hwn a'r fframwaith Caffael, gan nodi cynlluniau Llywodraeth y DU i wneud newidiadau i'r polisi taliadau hwyr fel rhan o ddiwygiadau caffael ehangach. Nodwn eich ymateb nad oes cysylltiad rhwng caffael a thaliadau hwyr ac y bydd newidiadau i bolisïau taliadau hwyr mewn diwygiadau caffael yn cael eu cymryd drwy'r fframwaith caffael. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod swyddogion taliadau hwyr yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig perthnasol i gyfraith caffael.

- Un o swyddogaethau'r fframwaith yw sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y DU, gan gydnabod gwahaniaeth polisi rhwng y gwledydd ar yr un pryd. Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon y gallai Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 effeithio ar y fframwaith hwn.

- Dylai Llywodraeth Cymru esbonio effaith Deddf Marchnad Fewnol 2020 ar bolisi taliadau hwyr, gan gynnwys unrhyw risgiau i effaith ymarferol deddfwriaeth a pholisi Cymru. Dylai hefyd gadarnhau a fyddai unrhyw geisiadau'n i eithrio o'r Ddeddf yn cael eu gwneud.

- Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru'r fframwaith i gydnabod unrhyw ryngweithio â Deddf Marchnad Fewnol 2020 a hwyluso proses ar gyfer cytuno ar eithriadau perthnasol o'r Ddeddf honno.

- Bwriad y fframweithiau yw rheoli newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau i ganiatáu i newidiadau gael eu gwneud i gyfraith a ddargedwir yn gyflymach ac yn haws. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi dweud y byddai newidiadau mewn meysydd fframwaith yn cael eu cymryd drwy'r fframweithiau, ond nododd eich ymateb ei bod yn "rhy gynnar i ddweud" pa broses fyddai'n cael ei defnyddio.

- Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a gytunwyd ar broses erbyn hyn neu pryd y rhagwelir hyn, a beth mae'n ei olygu.

- Nodir mai un o ddibenion y rhaglen fframweithiau cyffredin yw sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol a sicrhau y gellir gweithredu a thrafod cytundebau rhyngwladol. Er gwaethaf hyn, nododd eich ymateb "[nad] yw rhwymedigaethau rhyngwladol yn cael eu hystyried" o dan y fframwaith hwn.

- Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro unrhyw oblygiadau o ran rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer polisi taliadau hwyr ac yn rhoi gwybod i'r Senedd am unrhyw gamau i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

- Nododd y Pwyllgor yn ei lythyr fod y fframwaith yn anghyson o ran dyddiadau adolygu; fodd bynnag, ceir eglurder yn ymateb Llywodraeth Cymru.

- Dylid cywiro'r fframwaith i adlewyrchu'r wybodaeth yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i ddarparu i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd, Pwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Economi a Gwaith Teg Senedd yr Alban, a swyddogion perthnasol yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon.

Cofion



Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-0037-22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

huw.Irranca-Davies@senedd.wales

20 Mehefin 2022

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 27 Ebrill, yn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022, ysgrifennaf atoch i egluro y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ac nid y weithdrefn negyddol.

Mae'r Rheoliadau bellach wedi'u gosod gerbron y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol, lle byddant yn cael eu trafod a'u cymeradwyo cyn y gellir eu gwneud. Nid yw'r ddadl wedi'i threfnu eto. Byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig unwaith y bydd y Rheoliadau wedi'u gwneud.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Mesur Hawliau Llywodraeth y DU** |
| **DYDDIAD** | **22 Mehefin 2022** |
| **GAN** | **Mick Antoniw, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol** |

Heddiw, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Mesur Hawliau yn Nhŷ'r Cyffredin.

Ni chafodd Llywodraeth Cymru weld cynnwys y Mesur ymlaen llaw, ac eithrio pum cymal, a ddarparwyd ddiwedd yr wythnos ddiwethaf.  Ychydig iawn o ymgysylltu a fu â Llywodraeth Cymru ers i Lywodraeth y DU ddod â'i hymgynghoriad i ben ddiwedd mis Mawrth.

Aethom ati i nodi ein pryderon sylweddol am y Mesur hwn yn ein hymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Fel y dywedwyd bryd hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol. Ein barn ni yw bod y cam gweithredu hwn yn rhan o ymgais bendant i leihau hawliau pobl Cymru a'r DU.

Rydym ar ddeall bod ymateb mawr iawn wedi bod i'r ymgynghoriad hwn, a gwyddom fod llawer wedi mynegi eu pryderon y byddai cynigion Llywodraeth y DU yn gam difrifol yn ôl o ran hawliau dynol yn y DU, ar adeg pan na fu erioed yn bwysicach cynnal cyfraith ryngwladol.  Newydd gael ei gyhoeddi y mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, ac felly nid ydym eto wedi cael amser i'w ystyried.

Er bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi dweud y bydd y DU yn parhau i arddel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'n ymddangos yn glir mai'r bwriad yw tanseilio'r Confensiwn drwy gynyddu hawliau Gweinidogion y DU a lleihau pŵer llysoedd y DU, yn ogystal â Llys Hawliau Dynol Ewrop, i orfodi rheolaeth y gyfraith a dwyn Gweinidogion i gyfrif.

Wrth gwrs, byddwn yn astudio'r Mesur yn ofalus iawn, ac rydym wedi dweud wrth y Dirprwy Brif Weinidog o'r blaen ein bod yn barod i barhau i drafod wrth iddo fynd drwy Senedd San Steffan. Serch hynny, mae'r broses a ddilynwyd gan Lywodraeth y DU wedi bod yn gwbl anfoddhaol, yn enwedig o ran ymgysylltu â'r Llywodraethau Datganoledig.

Ministry of Justice

The Right Honourable
**Dominic Raab MP**
Deputy Prime Minister
Lord Chancellor & Secretary of State for Justice

**OFFICIAL**

Huw Irranca-Davies
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

22 June 2022

Dear Huw,

**INTRODUCTION OF THE BILL OF RIGHTS**

I am pleased to confirm that today the Government is delivering on our manifesto commitment to overhaul the Human Rights Act and replace it with a Bill of Rights.

This country has a long and proud tradition of freedom which our Bill will enhance, for example, in respect of free speech and recognition of the role of jury trial. Equally, over the years mission creep has resulted in human rights law being used for more and more purposes, with elastic interpretations that go way beyond anything that the architects of the Convention had in mind. Following careful consideration of the responses to the Government's consultation on the Bill of Rights, these reforms reinforce our tradition of liberty whilst curtailing the abuses of human rights, restoring some common sense to our justice system, and ensuring that our human rights framework meets the needs of the society it serves.

The measures in the Bill of Rights will:

1. **Strengthen the right to freedom of speech.** We are attaching greater weight to freedom of speech, defined as the exchange of ideas, opinions, information and facts, as a matter of utmost public interest, and widen the responsibility for attaching this greater weight to all public authorities.
2. **Recognise the right to jury trial.** The Bill recognises the right to trial by jury under, and subject to, the framework set by Parliament and the Scottish and Northern Ireland legislatures.
3. **Limit courts' powers for certain rights**. Human rights, especially Article 8, have been used to frustrate the deportation of criminals. The Bill will apply when a court considers deportation laws, especially those that may seek in the future to make it more difficult for foreign criminals to use Article 8 to appeal their deportation. It will set out that the legislation must be found compatible with those rights if it meets a new test which the Bill of Rights sets out. This will restore credibility to the system and ensure we can protect the public by deporting those who pose a serious threat.
4. **Reduce burdens on public authorities.** We are limiting the imposition of positive obligations on our public services without proper democratic oversight. We will make clear that when public authorities are giving clear effect to primary legislation, they are not acting unlawfully. We will do this by restricting UK courts' power to interpret legislation, as we propose to do for section 3 above. This will deliver greater certainty for public services to do the jobs entrusted to them, without the constant threat of having to defend against expensive human rights claims.
5. **Ensure that public protection is given due regard in interpretation of rights.** The Bill contains a provision that obliges all those who interpret Convention rights to consider the need to reduce

the risk to the public from convicted criminals serving a custodial sentence. This will support the Government’s proposed reforms to the Parole Board and strengthen the Government’s hand in fighting Article 8 claims from terrorists opposing their placement in Separation Centres.

6. **Limit the Bill’s territorial jurisdiction.** Domestic and Strasbourg case law has extended beyond the intent of the Convention’s drafters. The Bill excludes extraterritorial jurisdiction for military operations abroad.
7. **Implement a permission stage to ensure trivial cases do not undermine public confidence in human rights.** The introduction of a permission stage will ensure that courts focus on serious human rights claims and places responsibility on the claimant to demonstrate that they have suffered a significant disadvantage before a human rights claim can be heard in court.
8. **Recognise that responsibilities exist alongside rights.** We are recognising that responsibilities exist alongside rights and ensure that the appropriateness of paying damages to those who have infringed the rights of others are considered.
9. **Strengthen domestic institutions and the primacy of UK law.** The Bill empowers UK courts to apply human rights in a UK context, affirming the Supreme Court’s independence from the Strasbourg Court. It will make explicit that the UK Supreme Court is the ultimate judicial arbiter.
10. **Increase democratic oversight.** The Bill makes sure that the balance between our domestic institutions is right, by repealing section 3 to ensure that UK courts can no longer alter legislation contrary to its ordinary meaning and the overall purpose of the law.
11. **Enhance Parliament’s role in responding to adverse Strasbourg rulings.** The Bill enhances the role of Parliament in responding to adverse Strasbourg judgments against the UK. The Bill also affirms Parliament’s supremacy in the making of laws.

The issues addressed by the Bill of Rights affect the whole of the UK, and any changes must be made on a UK-wide basis. We will ensure that the framework applies equally, whilst also allowing for difference in how the framework is applied and implemented across the UK. During the consultation period I visited Wales, Scotland and Northern Ireland to discuss our proposals and we will continue to engage with the Devolved Administrations, civil society and relevant stakeholders across the UK.

Yours sincerely



**RT HON DOMINIC RAAB MP**

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

GREENER UK

Healthy Air Awyr Iach Cymru

Llythr Agored at Brif Weinidog Cymru
Mehefin 2022

## Mae Cymru angen mynediad at gyfiawnder amgylcheddol

Annwyl Brif Weinidog

Ym mis Mehefin 2021 cyhoeddodd y Senedd argyfwng natur. Mewn ymateb, addawodd Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu targedau statudol ar gyfer adferiad natur, yn ogystal â chorff annibynnol i ddwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif ar eu hymrwymiadau amgylcheddol. Bron i flwyddyn yn ddiweddarach, nid oes unrhyw eglurder ynghylch pryd y gwneir hyn. Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r cyfreithiau newydd pwysig hyn, ar gyfer pobl a bywyd gwyllt Cymru, heb oedi pellach.

Fe wnaed ymrwymiad cyntaf Llywodraeth Cymru tuag at sefydlu corff annibynnol amgylcheddol statudol yn 2018, ac er yn aml wedi cael ei ailadrodd, nid ydyw wedi cael ei wireddu. Pan oedd y DU yn Aelod o'r UE, roedd goruchwyliaeth a gorfodi gan sefydliadau yr UE yn gwarchod ein hamgylchedd ac yn caniatau i ddinasyddion i godi cwynion heb gost ariannol. Yn aml fe fyddai hyn yn arwain at ymchwilad ac achos llys, gan gynnwys ar ansawdd aer a diogelu natur.

Mae trefniadau cyfatebol eisioes wedi cael eu gwneud ar draws gweddill y DU, gyda Safonau Amgylcheddol yr Alban a Swyddfa ar gyfer Amddiffyn yr Amgylchedd (a fydd yn goruchwilio cyfraith amgylcheddol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon). Y mae'r ddau sefydliad yn statudol, wedi creu timau, wedi ymgynghori ar strategaethau a chreu llwybr clir i ddinasyddion godi pryderon os ydyn yn ystyried bod corff cyhoeddus yn methu cydymffurfio gyda neu weithredu cyfreithiau amgylcheddol. Mae mynediad at gyfiawnder amglycheddol – hawl rhyngwladol – yn cael ei gefnogi gan y prosesau hyn.

Yng Nghymru, er bod trefniadau dros dro ar waith, nid oes unrhyw bwerau cyfreithiol, dim strategaeth gyhoeddus ac nid oes gwefan hawdd ei llywio (neu hyd yn oed, hawdd dod o hyd iddi). Eto i gyd, mae'r adroddiad blynyddol cyntaf a gyhoeddwyd gan Asesydd Interim Diogelu Amgylchedd Cymru ar y 1af o Fehefin yn dangos bod pryder ynghylch defnydd ein cyfreithiau amgylcheddol.

Ni all Cymru fforddio bod ar ei hôl hi o ran materion diogelu'r amgylchedd: mae un o bob chwech o'n rhywogaethau mewn perygl o gael eu colli o Gymru, a dim ond cyfran fach o'n safleoedd natur gorau ar y tir ac ar y môr sydd mewn cyflwr da. Mae dros 1600 o bobl yn marw'n gynnar bob blwyddyn oherwydd llygredd aer. Mae'r oedi parhaus i gyflwyno deddfau i warchod a gwella ein hamgylchedd yn tanseilio hawl pobl i gyfiawnder amgylcheddol ac yn lleihau enw da Llywodraeth Cymru fel arweinydd byd ar ddatblygu cynaliadwy.

Mae aer glân, dŵr glân a natur sydd yn ffynnu yn ganolog i iechyd a lles pobl. Mae amgylchedd Cymru a'i dinasyddion yn haeddu cyfiawnder amgylcheddol – deddfwriaeth gadarn i ysgogi adferiad, yn ogystal â'r arfau i ddwyn y llywodraeth i gyfrif, fel bod cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn elwa ar amgylchedd iach.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| Roger Thomas | Cadeirydd Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Joseph Carter | Cadeirydd Awyr Iach Cymru / Pennaeth Asthma + Lung UK Cymru |
| Alun Pritchard | Cyfarwyddwr RSPB Cymru |
| Shaun Spiers | Cadeirydd Greener UK |
| Rachel Sharp | Cyfarwyddwr Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Anne Meikle | Cyfarwyddwr WWF Cymru |
| Chris Mills | Cadeirydd Afonydd Cymru |
| Jason Reeves | Pennaeth Polisi Chartered Institute for Ecology and Environmental Management (CIEEM) |
| Angela Charlton | Cyfarwyddwr Ramblers Cymru |
| Kit Stoner | Prif Weithredwr Bat Conservation Trust |
| John Harold | Cyfarwyddwr Cymdeithas Eryri |
| Nicola Hutchinson | Cyfarwyddwr Cadwraeth ar gyfer Plantlife (Cymru). |
| Haf Elgar | Is-Gadeirydd Awyr Iach Cymru/ Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| Ruth Billingham | Pennaeth Ymgyrchoedd a Materion Cyhoeddus yn Living Streets Cymru |
| Lowri Jackson | Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd Royal College of Physicians |
| Christine Boston | Cyfarwyddwr Sustrans Cymru |
| Gwenda Owen | Swyddog Ymgysylltu Cycling UK Cymru |
| Angela Charlton | Cyfarwyddwr Ramblers Cymru |
| Gareth Cunningham | Pennaeth Cadwraeth Cymru Marine Conservation Society |
| Natalie Buttriss | Cyfarwyddwr Coed Cadw |

## Supported by all WEL members

Wales Environment Link (WEL) is a network of environmental, countryside and heritage Non-Governmental Organisations in Wales. WEL is a respected intermediary body connecting the government and the environmental NGO sector. Our vision is a thriving Welsh environment for future generations.

**Swyddfa Caerdydd**
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Trydar: @WalesLink

**Cardiff Office**
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Twitter: @WalesLink

www.waleslink.org



Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Joint Directors: Susan Evans and Karen Whitfield.
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# 26C. RHEOL SEFYDLOG 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

## Ffurf Biliau Cydgrynhoi a Sut i'w Cyflwyno

26C.1. Bil a gyflwynwyd gan aelod o'r llywodraeth at ddibenion cydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol bresennol, is-ddeddfwriaeth a'r gyfraith gyffredin yw Bil Cydgrynhoi.

26C.2. Caiff Bil Cydgrynhoi:

(i) ailddatgan deddfwriaeth bresennol ag unrhyw newidiadau o ran strwythur, iaith neu fformat sy'n briodol at ddibenion gwella cyflwyniad y gyfraith a sicrhau cysondeb â'r arfer drafftio cyfredol;

(ii) egluro effaith y gyfraith bresennol neu sut i'w chymhwyso;

(iii) dileu neu hepgor darpariaethau anarferedig, darfodedig neu rai nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach;

(iv) gwneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddibenion sicrhau bod y gwaith o gydgrynhoi'r gyfraith yn foddhaol;

(v) gwneud newidiadau eraill i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn argymell y byddai'n briodol eu cynnwys mewn Bil Cydgrynhoi;

(vi) cynnwys darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed priodol, diwygiadau a diddymiadau canlyniadol i ddarnau o ddeddfwriaeth bresennol (gan gynnwys diwygiadau i sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i weithredu'n gywir mewn perthynas â Lloegr).

26C.3. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, caiff y Llywydd roi canllawiau ysgrifenedig i Aelodau ynglŷn â dehongli Rheolau Sefydlog 26C.1 a 26C.2, a sut y mae Rheol Sefydlog 26C yn gweithredu'n gyffredinol.

26C.4. Caniateir i Fil Cydgrynhoi gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd.

26C.5. Rhaid i Fil Cydgrynhoi gael ei gyflwyno drwy gael ei osod.

26C.6. Rhaid peidio â gosod Bil Cydgrynhoi oni bai ei fod ar y ffurf briodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd.

26C.7. Pan gyflwynir Bil Cydgrynhoi, rhaid cael datganiad Cymraeg a Saesneg gan y Llywydd i gyd-fynd ag ef a rhaid i'r datganiad hwnnw:

(i) nodi a fyddai darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; a

(ii) nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a'r rhesymau dros y farn honno.

26C.8. Rhaid i Fil Cydgrynhoi gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg.

## Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Cydgrynhoi

26C.9. Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Cydgrynhoi, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:

(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;

(ii) nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r Bil Cydgrynhoi;

(iii) datgan nad yw'r Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau ac eithrio'r rhai a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2;

(iv) cynnwys tablau sy'n dangos tarddiad y darpariaethau yn y Bil Cydgrynhoi, a ble yn y Bil Cydgrynhoi y cynhwysir y darpariaethau presennol sy'n cael eu cydgrynhoi;

(v) esbonio sut y mae'r Bil Cydgrynhoi yn gwneud unrhyw newidiadau o'r math a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2(ii) hyd at (v);

(vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil Cydgrynhoi;

(vii) cadarnhau nad yw darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi yn arwain at unrhyw wariant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac os yw'n arwain at wariant ychwanegol, nodi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer hyn;

(viii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf;

(ix) os yw'r Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.

26C.10. Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Cydgrynhoi ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26C.9, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall.

26C.11. Pan gyflwynir y Bil Cydgrynhoi, rhaid cael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano i gyd-fynd ag ef, yn seiliedig ar gyngor y Cwnsler Cyffredinol (os nad yr Aelod sy'n gyfrifol yw'r Cwnsler Cyffredinol) a, lle y bo'n berthnasol, Comisiwn y Gyfraith, yn cymeradwyo cywirdeb y

Memorandwm Esboniadol ac yn ardystio bod y Bil, ym marn yr Aelod sy'n gyfrifol amdano, yn Fil Cydgrynhoi o fewn ystyr Rheol Sefydlog 26C.1 a 26C.2.

## Y Pwyllgor Cyfrifol

26C.12. Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pwyllgor (y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26C fel "y pwyllgor cyfrifol") sydd â chyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 26C.

## Yr Amserlen ar gyfer Ystyried Bil Cydgrynhoi

26C.13. Rhaid i'r Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried Bil Cydgrynhoi, ac eithrio unrhyw gyfnod a gymerir yn y cyfarfod llawn (y mae'n rhaid ei drefnu o dan ddarpariaethau Rheol Sefydlog 11.12).

26C.14. Caiff y Pwyllgor Busnes wneud unrhyw newidiadau dilynol mewn amserlen a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 26C.13 ag y gwêl yn dda ond rhaid iddo roi rhesymau dros y newidiadau hynny.

## Yr Ystyriaeth Gychwynnol

26C.15. Pan fydd Bil Cydgrynhoi wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Bil Cydgrynhoi at y pwyllgor cyfrifol ar gyfer yr ystyriaeth gychwynnol.

26C.16. Pan fydd y Pwyllgor Busnes yn cyfeirio'r Bil Cydgrynhoi at y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 26C.15, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol hwnnw ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi a chyflwyno adroddiad ar hynny.

26C.17. Wrth ystyried a ddylai Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, caiff y pwyllgor cyfrifol ystyried:

(i) a yw'r Pwyllgor yn fodlon bod cwmpas y gwaith cydgrynhoi yn briodol;

(ii) a yw'r Pwyllgor yn fodlon bod y deddfiadau perthnasol wedi'u cynnwys wrth gydgrynhoi;

(iii) a yw'r Bil yn cydgrynhoi'r deddfiadau yn gywir neu a yw'n newid eu heffaith gyfreithiol o ran sylwedd i'r graddau a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2 yn unig;

(iv) a yw'r Bil yn cydgrynhoi'r gyfraith yn glir ac yn gyson;

(v) unrhyw faterion eraill y mae'n barnu eu bod yn berthnasol i Reol Sefydlog 26C.

26C.18. Heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ar ôl naill ai:

(i) i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad sy'n trafod a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi; neu

(ii) y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad,

caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gynnig bod y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi.

26C.19. Os bydd y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, mae'r Bil yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26C.20. Os na fydd y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, mae'r Bil yn methu.

26C.21. Mae'r Ystyriaeth Gychwynnol ar ben pan fydd y Senedd yn cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi neu pan fydd y Bil Cydgrynhoi yn methu adeg yr Ystyriaeth Gychwynnol.

## Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

26C.22. Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol ymgymryd ag Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26C.23. Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Ystyriaeth Gychwynnol ddod i ben.

26C.24. Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor a dyddiad y cyfarfod cyntaf y bydd y pwyllgor cyfrifol yn ystyried gwelliannau i'r Bil Cydgrynhoi.

26C.25. Caniateir i Fil Cydgrynhoi gael ei ddiwygio yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26C.26. Caniateir i welliannau sydd i'w hystyried yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dechrau.

26C.27. Mae'r gwelliannau i'w gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Cydgrynhoi, oni bai bod y pwyllgor sy'n ymgymryd â thrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi penderfynu fel arall.

26C.28. Dim ond Aelod sy'n aelod o'r pwyllgor sy'n ymgymryd â thrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor a gaiff gymryd rhan yn y trafodion hynny er mwyn:

(i) cynnig gwelliant neu ofyn am gytundeb i dynnu gwelliant yn ôl; neu

(ii) pleidleisio.

26C.29. Caniateir i welliant a gyflwynir gan Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor sy'n ymgymryd â thrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael ei gynnig gan aelod o'r pwyllgor.

26C.30. Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor wedi'u gwaredu, caiff unrhyw aelod o'r pwyllgor gynnig, heb hysbysiad, fod y pwyllgor yn ystyried rhagor o welliannau yn nhrafodion

Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. Ni chaniateir trafod cynnig o’r fath na’i ddiwygio.

26C.31. Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.30, caiff unrhyw aelod o’r llywodraeth gyflwyno gwelliannau i’r Bil Cydgrynhoi i’w cynnig yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor.

26C.32. Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26C.85, dim ond os ydynt wedi’u bwriadu i egluro darpariaeth mewn Bil Cydgrynhoi (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg) neu i weithredu ymrwymiadau a roddwyd yn nhrafodion cynharach Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y mae gwelliannau o dan Reol Sefydlog 26C.31 yn dderbyniadwy.

26C.33. Os cyflwynir gwelliant i adran o’r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i’r adran neu’r atodlen honno wedi’i waredu, bernir bod y pwyllgor wedi derbyn yr adran neu’r atodlen honno fel y’i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26C.34. Os na chyflwynir gwelliant i adran o’r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi derbyn yr adran neu’r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26C.35. Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi’i waredu neu pan fernir bod yr adran neu’r atodlen olaf wedi’i derbyn, pa un bynnag yw’r olaf.

26C.36. Ar ôl cwblhau trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei ystyriaeth fanwl, ac a ddylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu i'r Cyfnod Terfynol yn ei farn ef.

26C.37. Os caiff Bil Cydgrynhoi ei ddiwygio yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i’r Aelod sy’n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

26C.38. Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26C.37 gael ei osod o leiaf pum niwrnod gwaith cyn dyddiad trafodion y Cyfnod Terfynol neu, lle bo’n berthnasol, trafodion cyntaf Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

## Ystyriaeth Fanwl y Senedd

26C.39. Os bydd y pwyllgor cyfrifol yn adrodd adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Senedd, bydd y Bil Cydgrynhoi yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Senedd, oni bai bod y Senedd yn derbyn cynnig y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud yn syth i'r Cyfnod Terfynol.

26C.40. Os bydd y pwyllgor cyfrifol wedi cyflwyno adroddiad ar Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar y Bil Cydgrynhoi ac wedi argymell y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol, neu os bydd y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad wedi mynd heibio, bydd y Bil Cydgrynhoi yn symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol, oni bai bod y Senedd yn derbyn cynnig bod y Senedd yn ystyried gwelliannau yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.41. Rhaid i'r Senedd ystyried cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26C.39 neu 26C.40. Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig o'r fath, a chaniateir ei drafod ond ni chaniateir ei ddiwygio.

26C.42. Mae Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn dechrau naill ai:

(i) dwy wythnos eistedd ar ôl i'r pwyllgor cyfrifol adrodd adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Senedd (ac nad yw'r Senedd yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.39 y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen yn syth i'r Cyfnod Terfynol yn y cyfamser); neu

(ii) y diwrnod ar ôl i'r Senedd dderbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.40 y dylai'r Senedd ystyried gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.43. Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Ystyriaeth Fanwl y Senedd a dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.44. Rhaid i drafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd ar Fil Cydgrynhoi gael eu hystyried gan y Senedd mewn cyfarfod llawn.

26C.45. Caniateir i Fil Cydgrynhoi gael ei ddiwygio yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.46. Caniateir i welliannau sydd i'w hystyried yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn dechrau.

26C.47. Caiff y Llywydd ddethol y gwelliannau hynny yr ymdrinnir â hwy yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.48. O dan amgylchiadau eithriadol, caiff y Llywydd dderbyn gwelliant yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd y rhoddwyd llai o hysbysiad ohono na'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26C.83. Cyfeirir at welliant o'r fath fel "gwelliant hwyr".

26C.49. Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Cydgrynhoi, oni bai bod y Senedd wedi penderfynu fel arall drwy gynnig gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth.

26C.50. Drwy gynnig heb hysbysiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth, caiff y Senedd gytuno ar un neu fwy o derfynau amser sydd i

fod yn gymwys mewn dadleuon ar welliannau (fel y maent wedi'u grwpio gan y Llywydd).

26C.51. Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.50, rhaid i'r dadleuon ar y grwpiau hynny o welliannau gael eu gorffen erbyn y terfynau amser a bennwyd yn y cynnig, ac eithrio i'r graddau y mae'r Llywydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol:

(i) am fod peidio â chynnig gwelliant wedi arwain at newid trefn trafod y grwpiau; neu

(ii) i atal unrhyw ddadl ar grŵp o welliannau sydd eisoes wedi dechrau pan gyrhaeddir y terfyn amser rhag cael ei chwtogi'n afresymol.

26C.52. Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd wedi'u gwaredu, caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth, heb hysbysiad, gynnig bod y Senedd yn ystyried rhagor o welliannau mewn trafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Senedd. Ni chaniateir trafod cynnig o'r fath na'i ddiwygio.

26C.53. Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.52, caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno gwelliannau i'r Bil Cydgrynhoi i'w cynnig yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Senedd.

26C.54. Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26C.85, dim ond os ydynt wedi'u bwriadu i egluro darpariaeth mewn Bil Cydgrynhoi (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg) neu i weithredu ymrwymiadau a roddwyd yn nhrafodion cynharach Ystyriaeth Fanwl y Senedd y mae gwelliannau o dan Reol Sefydlog 26C.53 yn dderbyniadwy.

26C.55. Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y Senedd wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.56. Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Cydgrynhoi neu atodlen iddo, bernir bod y Senedd wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd.

26C.57. Mae Ystyriaeth Fanwl y Senedd ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i derbyn, pa un bynnag yw'r olaf.

## Y Cyfnod Terfynol

26C.58. Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i basio Bil Cydgrynhoi, ond ni chaiff ei ystyried hyd nes naill ai:

(i) dwy wythnos eistedd o leiaf naill ai:

(a) ar ôl i’r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor o ran y Bil Cydgrynhoi a’i fod wedi argymell y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol; neu

(b) ar ôl i’r dyddiad cau erbyn pryd y mae’n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad wedi mynd heibio;

(ac nad yw’r Senedd wedi derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.40 y dylai’r Senedd ystyried gwelliannau yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn y cyfamser); neu

(ii) o leiaf pum diwrnod gwaith naill ai:

(a) ar ôl i’r Senedd dderbyn cynnig y dylai'r Bil Cydgrynhoi symud ymlaen yn syth i'r Cyfnod Terfynol o dan Reol Sefydlog 26C.39; neu

(b) ar ôl cwblhau trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd, os cawsant eu cynnal.

26C.59. Rhaid i gynnig o dan Reol Sefydlog 26C.58 gael ei gyflwyno o leiaf un diwrnod gwaith cyn y caiff ei drafod.

26C.60. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil Cydgrynhoi gael ei basio.

26C.61. Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Cydgrynhoi yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil Cydgrynhoi ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

26C.62. Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Cydgrynhoi yn cael ei basio nes y bydd y Llywydd wedi datgan, yn unol ag adran 111A(3) o'r Ddeddf, a oes unrhyw un o ddarpariaethau’r Bil Cydgrynhoi, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig.

26C.63. Pan fo'r Llywydd wedi gwneud datganiad bod unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Cydgrynhoi, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, ni chaiff y Bil ei basio oni bai bod y nifer sy'n pleidleisio o'i blaid yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd.

26C.64. Rhaid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar gynnig bod Bil Cydgrynhoi yn cael ei basio.

26C.65. Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 12.31(ii) mewn unrhyw drafodion Cyfnod Terfynol.

## Ailystyried Biliau Cydgrynhoi a Basiwyd

26C.66. Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Senedd ailystyried y Bil Cydgrynhoi:

(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu ynglŷn â chyfeiriad a wnaed mewn perthynas â’r Bil Cydgrynhoi o dan adran 112 o’r Ddeddf na

fyddai'r Bil Cydgrynhoi neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; neu

(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil Cydgrynhoi o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26C.67. Os bydd y Senedd yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.66, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig hwnnw gael ei dderbyn gan y Senedd.

26C.68. Mae Rheolau Sefydlog 26C.43 i 26C.47 a 26C.49 i 26C.57 yn gymwys i drafodion y Cyfnod Ailystyried. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Senedd" ac "Ystyriaeth Fanwl Bellach y Senedd" yn gyfeiriadau at "y Cyfnod Ailystyried" a'r "Cyfnod Ailystyried pellach" yn unol â hynny.

26C.69. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil Cydgrynhoi yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26C.82(i), (ii) a (iv), ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:

(i) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu

(ii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26C.70. Ar ôl gwaredu'r holl welliannau yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, ac yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26C.71, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Senedd yn cymeradwyo Bil Cydgrynhoi a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath a rhaid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar y cynnig.

26C.71. Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Cydgrynhoi a ailystyriwyd yn cael ei gymeradwyo nes y bydd y Llywydd wedi datgan, yn unol ag adran 111A(3) o'r Ddeddf, a oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig.

26C.72. Pan fo'r Llywydd wedi gwneud datganiad bod unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Cydgrynhoi, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, ni chaiff y Bil Cydgrynhoi hwnnw ei gymeradwyo oni bai bod y nifer sy'n pleidleisio o'i blaid yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd.

## Ailystyried Biliau a wrthodwyd

26C.73. Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig bod y Senedd yn ailystyried Bil Cydgrynhoi os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu ynglŷn â chyfeiriad a wnaed o dan adran 111B(2)a o'r Ddeddf mewn perthynas â Bil Cydgrynhoi a wrthodwyd gan y Senedd, nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Cydgrynhoi sy'n destun y cyfeiriad yn ymwneud â phwnc gwarchodedig.

26C.74. Os bydd y Senedd yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.73, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig hwnnw gael ei dderbyn gan y Senedd.

26C.75. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil Cydgrynhoi a ailystyriwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26C.73.

26C.76. Yn y Cyfnod Ailystyried yn unol â Rheol Sefydlog 26C.73, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i gymeradwyo'r Bil Cydgrynhoi. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath a rhaid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar y cynnig.

26C.77. Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.76 nes y bydd y Llywydd wedi datgan, yn unol ag adran 111A(3) o'r Ddeddf, a oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig.

## Darpariaethau Cyffredinol mewn Perthynas â Gwelliannau i Filiau Cydgrynhoi

26C.78. Mae Rheolau Sefydlog 26C.79 i 26C.87 yn gymwys i welliannau yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu yn y Cyfnod Ailystyried, ac eithrio nad yw Rheol Sefydlog 26C.82(iii) yn gymwys i welliannau yn y Cyfnod Ailystyried.

26C.79. Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil Cydgrynhoi.

26C.80. Ni chaniateir ystyried gwelliant, ac eithrio gwelliant hwyr, oni bai ei fod wedi’i gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried.

26C.81. Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) drwy hysbysu’r Clerc ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn bod y gwelliant i fod i gael ei ystyried.

26C.82. Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:

(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26C;

(ii) os nad yw’n berthnasol i’r Bil Cydgrynhoi neu ddarpariaethau’r Bil Cydgrynhoi y byddai’n ei ddiwygio;

(iii) os byddai'n achosi i'r Bil beidio â bod yn Fil Cydgrynhoi fel y'i diffinnir yn Rheolau Sefydlog 26C.1 a 26C.2; neu

(iv) os yw’n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi’i wneud yn y Cyfnod pryd y mae’r gwelliant yn cael ei gynnig.

26C.83. Caniateir cyflwyno gwelliant i welliant ac, o’i ddethol, rhaid iddo gael ei waredu cyn y gwelliant y byddai’n ei ddiwygio, a rhaid i Reolau Sefydlog 26C.78 i 26C.87 fod yn gymwys yn unol â hynny

26C.84. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26C.28, caniateir i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a’i cyflwynodd ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y mae’n cael ei ystyried ond dim ond gyda chytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i’r gwelliant. Os na sicrheir cytundeb o’r fath, daw’r gwelliant yn welliant

yn enw'r Aelod cyntaf a ychwanegodd ei enw i'r gwelliant ac nad yw'n cytuno i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl.

26C.85. Caiff cadeirydd pwyllgor sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw'n amser ei waredu.

26C.86. Os na fydd Aelod a gyflwynodd welliant yn cynnig y gwelliant pan ddaw'n amser trafod y gwelliant hwnnw, caniateir i'r gwelliant gael ei gynnig:

(i) yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, gan aelod o'r pwyllgor hwnnw; neu

(ii) yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu yn y Cyfnod Ailystyried, gan unrhyw Aelod arall.

26C.87. Caniateir i welliant sydd wedi'i gynnig gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cynigiodd, ond dim ond:

(i) mewn pwyllgor sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, os na fydd aelod o'r pwyllgor hwnnw yn gwrthwynebu; neu

(ii) yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu yn y Cyfnod Ailystyried, os na fydd Aelod yn gwrthwynebu.

## Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw

26C.88. Os yw Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Mawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil Cydgrynhoi gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) nes bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd.

## Hysbysu ynghylch Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau'r Senedd

26C.89. Rhaid i'r Clerc hysbysu'r Senedd ynglŷn â'r dyddiad y bydd Deddf y Senedd yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

## Biliau yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl

26C.90. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26C.73, os bydd Bil Cydgrynhoi yn methu neu'n cael ei wrthod gan y Senedd, rhaid peidio â chymryd dim trafodion pellach ar y Bil Cydgrynhoi hwnnw a rhaid peidio â chyflwyno Bil Cydgrynhoi sydd, ym marn y Llywydd, yn yr un telerau neu delerau tebyg, o dan y Rheol Sefydlog hon yn yr un Senedd o fewn y cyfnod o

chwe mis ar ôl y dyddiad y methodd y Bil Cydgrynhoi neu y cafodd ei wrthod.

26C.91. Mae Bil Cydgrynhoi yn methu os nad yw wedi'i basio neu wedi'i gymeradwyo gan y Senedd cyn diwedd y Senedd y'i cyflwynwyd ynddi.

26C.92. Caniateir i Fil Cydgrynhoi gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano ond rhaid peidio â'i dynnu'n ôl ar ôl yr Ystyriaeth Gychwynnol ac eithrio gyda chytundeb y Senedd.

Senedd Cymru
**Busnes y Senedd**

# Canllawiau i ategu'r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C ar Filiau Cydgrynhoi

Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26C.3 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes

Hydref 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Tel: 0300 200 6565
Email: Cysyllt@senedd.cymru

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys

**Biliau Cydgrynhoi......3**
Diben Bil Cydgrynhoi......3
Graddau'r hyn y gall y Bil cydgrynhoi ei wneud......3
Dogfennau i gyd-fynd â Bil Cydgrynhoi......4
**Atodiad i'r canllawiau......5**
Rheol Sefydlog 26C.2(i)......5
Rheol Sefydlog 26C.2(ii)......7
Rheol Sefydlog 26C.2(iii)......9
Rheol Sefydlog 26C.2(iv)......12
Rheol Sefydlog 26C.2(v)......14
Rheol Sefydlog 26C.2(vi)......15

# Biliau Cydgrynhoi

**1.** Caniateir i Fil Cydgrynhoi gael ei gyflwyno gan aelod o'r Llywodraeth at ddibenion cydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol bresennol, is-ddeddfwriaeth a'r gyfraith gyffredin (Rheol Sefydlog 26C.2).

**2.** Cyhoeddwyd y canllawiau hyn gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26C.3 a bwriedir iddynt gael eu darllen ochr yn ochr â Rheol Sefydlog 26C yn gyffredinol, a Rheol Sefydlog 26C.2 yn benodol. Maent yn rhoi rhagor o fanylion am natur Biliau Cydgrynhoi ac i ba raddau y gallant ddiwygio, diweddaru a newid y gyfraith bresennol.

## Diben Bil Cydgrynhoi

**3.** Diben Bil Cydgrynhoi yw gwella mynediad i'r gyfraith drwy:

- ddwyn ynghyd yr holl ddeddfwriaeth (sylfaenol ar y cyfan) ar bwnc penodol i wella hygyrchedd, a
- moderneiddio darnau o ddeddfwriaeth o ran ffurf a'r ffordd y maent wedi'u drafftio, i'w gwneud yn haws eu deall a'u gweithredu.

**4.** Nid diwygio polisi mewn unrhyw ffordd sylweddol yw diben Bil Cydgrynhoi. Felly, dylai'r broses o ddatblygu Bil Cydgrynhoi a chraffu arno fod yn un gyfreithiol, dechnegol, sy'n canolbwyntio ar gydgrynhoi'r gyfraith bresennol yn hytrach na rhinweddau'r polisïau sydd wedi'u hymgorffori ynddi.

## Graddau'r hyn y gall y Bil cydgrynhoi ei wneud

**5.** Gall Bil Cydgrynhoi arwain at ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n edrych yn wahanol iawn i'r testun gwreiddiol. Er mwyn cyflwyno'r gyfraith bresennol sy'n berthnasol yng Nghymru ar ffurf fodern a hygyrch, efallai y byddai'n briodol gwneud newidiadau sylweddol o ran cyflwyniad nad ydynt yn newid effaith y gyfraith dan sylw.

**6.** Dim ond y mathau o newidiadau i'r gyfraith a nodir yn Rheol Sefydlog 26C.2 y caiff Bil Cydgrynhoi eu cynnig. Mae rhagor o fanylion am ddarpariaethau Rheol

Sefydlog 26C.2, ynghyd ag enghreifftiau perthnasol o oblygiadau ymarferol y darpariaethau hynny, yn yr Atodiad i'r canllawiau hyn.

**7.** Mae'r broses gydgrynhoi yn gymhleth ac yn debygol o ddatgelu anghysondebau ac anomaleddau yn y ddeddfwriaeth bresennol. Wrth ailddatgan y gyfraith bresennol mewn ffordd fodern a hygyrch, gallai fod yn fuddiol neu'n angenrheidiol gwneud mân ddiwygiadau hefyd. Fodd bynnag, dim ond mân ddiwygiadau a ganiateir ac ni ddylent fod yn ddadleuol. Rhaid mynd i'r afael ag unrhyw newid arall y tu hwnt i'r diffiniad uchod drwy Fil Diwygio, a gaiff ei ystyried gan y Senedd gan ddilyn y weithdrefn ddeddfwriaethol arferol o dan Reol Sefydlog 26.

# Dogfennau i gyd-fynd â Bil Cydgrynhoi

**8.** Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Cydgrynhoi, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol sy'n cynnwys yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 26C.9. Mae un o'r darpariaethau hynny (Rheol Sefydlog 26C.9(iv)) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys tablau sy'n dangos tarddiad y darpariaethau a ble y byddant yn cael eu cynnwys, er mwyn helpu i egluro sut mae'r gyfraith wedi'i hailgyflwyno. Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol hefyd gynnwys nodiadau drafftio yn esbonio'r dull a ddefnyddiwyd wrth ddrafftio'r Bil. Rhaid paratoi set o Nodiadau Esboniadol i gyd-fynd â phob Bil Cydgrynhoi hefyd.

# Atodiad i'r canllawiau

Manylion am y darpariaethau a geir yn Rheol Sefydlog 26C.2 – ynghyd ag enghreifftiau o sut y cânt eu defnyddio:

## Rheol Sefydlog 26C.2(i)

Caiff Bil Cydgrynhoi ailddatgan deddfwriaeth bresennol ag unrhyw newidiadau o ran strwythur, iaith neu fformat sy'n briodol at ddibenion gwella cyflwyniad y gyfraith a sicrhau cysondeb â'r arfer drafftio cyfredol

**1.** Mae'r newidiadau a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2(i) yn cynnwys:

a. ail-rifo ac aildrefnu darpariaethau (er enghraifft, rhannu neu gyfuno adrannau neu Rannau presennol, neu symud deunydd rhwng adrannau ac Atodlenni);

b. mynegi darpariaethau mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu heffaith gyfreithiol wirioneddol (er enghraifft defnyddio terminoleg sy'n adlewyrchu datganoli ac achosion eraill o drosglwyddo swyddogaethau sydd wedi digwydd ers pasio'r ddeddfwriaeth bresennol);

### Enghreifftiau:

- ynghyd â datganoli a throsglwyddo swyddogaethau, dylid disgwyl i'r Bil Cydgrynhoi adlewyrchu'r holl newidiadau cyfreithiol eraill sydd wedi newid ystyr y ddeddfwriaeth bresennol. Er enghraifft, y ddirwy uchaf y câi llys ynadon ei rhoi am drosedd cyn 12 Mawrth 2015 oedd £5,000, ond cafodd hynny ei throsi'n ddirwy ddiderfyn gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Felly, byddai darpariaethau cynharach a oedd yn creu atebolrwydd i ddirwy uchaf o £5,000 yn cael eu hailddatgan fel rhai a oedd yn creu atebolrwydd i "ddirwy";
- efallai y bu newidiadau yn y gyfraith ers deddfu'r ddeddfwriaeth bresennol, sy'n golygu bod y geiriau sy'n ofynnol i gyflawni effaith gyfreithiol benodol yn wahanol i'r rhai a oedd yn ofynnol pan

ddrafftiwyd y ddeddfwriaeth bresennol. Er enghraifft, roedd Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gwrthdroi'r rhagdybiaeth nad yw Deddfau'r Senedd yn rhwymo'r Goron, felly mae'n debygol y bydd angen darpariaeth wahanol er mwyn sicrhau bod Bil Cydgrynhoi yn rhwymo'r Goron i'r un graddau ag y mae'r ddeddfwriaeth wreiddiol.

c. newid iaith deddfwriaeth a wnaed yn Saesneg yn unig er mwyn cynhyrchu Bil dwyieithog cyson;

d. defnyddio iaith niwtral o ran rhyw a moderneiddio iaith mewn unrhyw ffordd arall (gan gynnwys drwy hepgor geiriau diangen);

e. ychwanegu, dileu neu newid labeli a phenawdau;

## Enghreifftiau:

- caiff Bil Cydgrynhoi newid y labeli a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth bresennol a defnyddio rhai sy'n cyfleu'r hyn y cyfeirir ato yn well. Er enghraifft, mae Comisiwn y Gyfraith wedi nodi bod deddfwriaeth gynllunio yn defnyddio nifer o labeli y gellid eu hystyried yn gamarweiniol neu'n annefnyddiol, megis "hysbysiad torri rheolau cynllunio" a "person penodedig";
- efallai bod labeli a phenawdau i'w gweld yn y ddeddfwriaeth bresennol nad oes eu hangen wrth ailddatgan y gyfraith ar gyfer Cymru gan mai'r unig bwrpas yw gwahaniaethu rhwng achosion "Cymru" ac achosion "Lloegr". Gellir dileu labeli o'r fath neu ddefnyddio termau mwy addas yn eu lle;
- efallai bod labeli yn y ddeddfwriaeth bresennol nad ydynt yn ddefnyddiol mwyach oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau. Er enghraifft, mae Comisiwn y Gyfraith wedi nodi nad oes angen y gwahaniaethu rhwng "awdurdod cynllunio lleol" ac "awdurdod cynllunio mwynau" mewn deddfwriaeth gynllunio yng Nghymru gan fod y termau'n cyfeirio at yr un awdurdod bob amser (ond gallai fod yn wahanol o dan y system lywodraeth leol ddwy haen sy'n gymwys o hyd yn y rhan fwyaf o Loegr).

f. ychwanegu tablau newydd, fformwlâu neu ffyrdd eraill o gyflwyno gwybodaeth;

g. ychwanegu darpariaethau cyfeirio a manylion i helpu darllenwyr i ddod o hyd i bethau (gan gynnwys cyfeiriadau at ddarnau o ddeddfwriaeth nad ydynt yn rhan o'r gwaith cydgrynhoi ond sy'n berthnasol iddo);

h. nodi'n llawn ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sydd wedi'u hymgorffori yn y ddeddfwriaeth sydd wedi'i chydgrynhoi;

### Enghraifft:

- os yw Deddf A yn darparu bod rhai o ddarpariaethau Deddf B yn gymwys iddi, yn aml bydd yn fwy hygyrch ailadrodd y darpariaethau hynny yn llawn wrth ailddatgan Deddf A (yn enwedig os oes angen addasiadau i wneud iddynt weithio'n iawn yng nghyd-destun Deddf A).

i. ychwanegu, dileu neu newid atalnodi neu gysyllteiriau; a

j. chywiro gwallau teipograffyddol, croesgyfeiriadau anghywir a chamgymeriadau amlwg tebyg.

**2.** Ystyr 'arfer drafftio cyfredol', fel y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26C.2, yw'r arfer drafftio deddfwriaethol sy'n cael ei ddefnyddio am y tro gan Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol.

# Rheol Sefydlog 26C.2(ii)

Caiff Bil Cydgrynhoi egluro effaith y gyfraith bresennol neu sut i'w chymhwyso

**3.** Os yw'n aneglur beth yw effaith darpariaethau presennol neu sut i'w cymhwyso (oherwydd eu bod wedi eu drafftio mewn ffordd sy'n creu amheuaeth neu amwysedd, megis ansicrwydd ynghylch pryd y daw cyfnod o amser i ben neu ynghylch pa gyrff sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd), caiff Bil Cydgrynhoi egluro'r ystyr a fwriedir, er enghraifft drwy egluro'n gliriach pryd y mae darpariaeth neu ddiffiniad penodol yn berthnasol. Os yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn ddwyieithog, gallai'r gwaith egluro gynnwys cysoni unrhyw amwysedd yn y naill iaith neu'r llall neu yn y ddwy iaith.

**4.** Gallai'r gwaith egluro gynnwys llenwi bylchau yn y ddeddfwriaeth, er enghraifft drwy gynnwys diffiniadau o dermau nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol

yn eu diffinio, neu nodi mai dim ond yn yr achosion penodol y mae darpariaeth yn berthnasol iddynt y gellir cymhwyso'r ddarpariaeth honno.

## Enghraifft:

- gallai hyn gynnwys egluro effaith trosglwyddo swyddogaethau "mewn perthynas â Chymru" drwy ddarparu terfyn tiriogaethol cliriach mewn Bil Cydgrynhoi (a therfyn tiriogaethol cyfatebol mewn unrhyw ddeddfiad sy'n ffurfio rhan o'r gwaith cydgrynhoi ond a fydd yn parhau i fod yn berthnasol i Loegr ar ôl pasio'r Bil Cydgrynhoi).

**5.** Gallai egluro bwriad y ddeddfwriaeth hefyd gynnwys cywiro sefyllfa lle nad yw geiriad y darpariaethau presennol yn adlewyrchu'r ystyr a ddeëllir ganddynt yn ymarferol, neu pan fo gwahanol ddeddfiadau'n gwneud darpariaeth ynglŷn â'r un mater sydd, neu a allai fod, yn groes.

## Enghraifft:

- dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (Deddf Cydgrynhoi Senedd y DU), dilewyd gofyniad bod "rhesymau arbennig" dros gofrestru cymdeithas, i adlewyrchu sut roedd y darpariaethau'n cael eu cymhwyso'n ymarferol a sut y bwriadwyd yn wreiddiol iddynt gael eu cymhwyso. Nid oedd hyn yn ymwneud ag anghysondeb yn y ddeddfwriaeth ei hun.

**6.** Pan fydd Bil Cydgrynhoi yn ceisio egluro ystyr darpariaethau sy'n bodoli eisoes mewn unrhyw un o'r ffyrdd a amlinellir uchod, dylai wneud hynny yn y ffordd sy'n adlewyrchu orau yr ystyr a ddeëllir gan y darpariaethau, neu'r hyn y credir yr oedd y ddeddfwrfa wedi ei fwriadu.

**7.** Caiff Bil Cydgrynhoi hefyd ymgorffori effaith cyfraith achosion o ran ystyr y ddeddfwriaeth bresennol, neu reolau'r gyfraith gyffredin sydd â chysylltiad agos â'r darpariaethau statudol, er mwyn rhoi ailddatganiad mwy cyflawn o'r gyfraith bresennol. Ni fwriedir i Fil Cydgrynhoi godeiddio rheolau cyfraith gyffredin annibynnol, ond gallai fod yn briodol ymgorffori cyfraith achosion sy'n effeithio ar sut y mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn gweithio, er enghraifft drwy egluro'r ystyr neu drwy ehangu neu gyfyngu ar ei heffaith mewn ffordd nad yw wedi'i nodi ar wyneb y ddeddfwriaeth.

### Enghraifft:

- wrth ailddatgan trosedd o feddu ar eog a ddaliwyd ar adeg pan na chaniatawyd pysgota, aed ati i gynnwys yn Neddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw (Cydgrynhoi) (Yr Alban) 2003 amddiffyniad nad oedd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth flaenorol ond a oedd wedi'i gydnabod gan y llysoedd.

# Rheol Sefydlog 26C.2(iii)

Caiff Bil Cydgrynhoi ddileu neu hepgor darpariaethau anarferedig, darfodedig neu rai nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach;

**8.** Mae hepgor darpariaeth yn golygu y gellir ei diddymu yng Nghymru a/neu gellid peidio â'i chynnwys yn y Bil Cydgrynhoi;

**9.** Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng darpariaethau anarferedig, darpariaethau darfodedig neu rai nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol neu'n ymarferol effeithiol bellach. Yn gyffredinol:

a. byddai darpariaeth anarferedig yn cynnwys darpariaeth sydd wedi dyddio, er enghraifft oherwydd ei bod yn ymwneud â chyrff, personau neu bethau nad ydynt bellach yn bodoli neu'n cael eu defnyddio;

b. darpariaeth ddarfodedig yw un sy'n berthnasol i sefyllfa na all fodoli mwyach, megis darpariaeth sy'n rhoi swyddogaeth na ellir ei defnyddio eto (er enghraifft, oherwydd bod y ddeddfwriaeth wreiddiol yn darparu ar gyfer cymryd un cam gweithredu a bod y cam hwnnw wedi'i gymryd, neu oherwydd na ellir bodloni'r amodau ar gyfer defnyddio'r ddeddfwriaeth mwyach); ac

c. pan fydd amgylchiadau'n gwneud darpariaeth yn amherthnasol neu'n ddiangen, ni fydd y ddarpariaeth yn ymarferol effeithiol bellach. Mae hyn yn cynnwys:

i. darpariaethau nad oes eu hangen mwyach gan fod darpariaeth gyfreithiol ar gael mewn man arall (naill ai yn y Bil Cydgrynhoi neu mewn darn arall o ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru) sydd ag effaith gyfreithiol gyfatebol.

ii. darpariaethau na chawsant eu cychwyn erioed ac nad yw'n debygol y cânt byth eu cychwyn yng Nghymru; neu os cafodd y ddarpariaeth ei chychwyn ond na chafodd ei defnyddio erioed ac ni ddisgwylir i'r ddarpariaeth gael ei defnyddio yng Nghymru; neu cafodd ei chychwyn a'i defnyddio, ond nid yw wedi'i defnyddio am gyfnod sylweddol ac ni ddisgwylir iddi gael ei defnyddio yn y dyfodol; neu efallai bod Deddfau, darpariaethau neu amgylchiadau eraill wedi disodli'r ddarpariaeth (noder: er bod pwerau'n cael eu rhoi i Weinidogion, wrth sôn am 'debygolrwydd' yma, ystyrir nid yn unig a yw'r Gweinidogion presennol yn bwriadu defnyddio'r pŵer, ond a oes tebygolrwydd gwirioneddol y bydd unrhyw lywodraeth yn defnyddio'r pŵer.)

## Enghreifftiau:

- mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys darpariaethau amrywiol ynghylch achosion o dorri rheolau cynllunio cyn 1948 a oedd yn berthnasol pan ddaeth y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref gyntaf i rym. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi nodi nad oes gan y rhan fwyaf o'r rhain effaith ymarferol bellach ac y gellid eu hepgor wrth gydgrynhoi deddfwriaeth;

- yn Neddf Tai 1985 (Deddf Cydgrynhoi Senedd y DU), diddymwyd pŵer blaenorol i ddiwygio Deddfau lleol, gan fod 15 mlynedd wedi mynd heibio heb i'r pŵer gael ei arfer;

- yn Neddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (Deddf Cydgrynhoi Senedd y DU), ni ddyblygwyd darpariaethau Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 a oedd yn cyfeirio at bobl a oedd wedi gwneud enwebiad o dan y Ddeddf cyn 1 Ionawr 1914, ar y sail na fyddai unrhyw un a oedd wedi gwneud enwebiad o'r fath yn dal yn fyw yn 2014;

- roedd ddarpariaeth heb ei chychwyn i ddiddymu "or (2)" yn adran 60(3) o Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965, ac ni chafodd ei dyblygu yn Neddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 gan nad oedd bwriad i gychwyn y diddymiad (roedd y diddymiad wedi'i gynnwys yn Neddf 1992);

- yn Neddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, dilëwyd y cyfeiriad at drosedd benodol o wneud

datganiad statudol ffug ar y sail bod cyfeiriad eisoes at drosedd gyffredinol o wneud datganiadau statudol ffug a oedd yn cwmpasu'r un ymddygiad.

# Rheol Sefydlog 26C.2(iv)

Caiff Bil Cydgrynhoi wneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol at ddibenion sicrhau bod y gwaith o gydgrynhoi'r gyfraith yn foddhaol

**10.** Gallai hyn gynnwys:

datrys anghysondebau o ran cymhwyso'r gyfraith mewn gwahanol achosion, pan nad yw'r rhesymau dros y gwahaniaethau yn berthnasol mwyach neu pan na ellir eu deall;

## Enghreifftiau:

- dileu neu gysoni anghysondebau o ran pwerau gwneud rheoliadau ar draws gwahanol ddarpariaethau;
- pan ymdrinnir â mater ar wyneb un Ddeddf, ond drwy is-ddeddfwriaeth mewn Deddf arall, sicrhau yr ymdrinnir â'r ddau achos mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (fel y bo'n briodol);
- sicrhau bod y Bil Cydgrynhoi yn ymdrin ag achosion tebyg yn yr un ffordd, er enghraifft drwy gysoni unrhyw anghysondebau rhwng darpariaethau sydd wedi dod o wahanol ddeddfiadau neu drwy estyn darpariaethau neu ddiffiniadau cyffredinol yn un o'r Deddfau presennol i gwmpasu'r holl ddeddfiadau sy'n cael eu cydgrynhoi;
- mewn achosion pan fo'n rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig, a bod rhai darnau presennol o ddeddfwriaeth yn nodi'n benodol bod rhaid iddo fod yn ysgrifenedig ond nid yw rhai eraill yn nodi hynny, gellir nodi'r gofyniad i roi rhybudd ysgrifenedig yn yr holl ddarpariaethau (neu dim un ohonynt os yw mor amlwg nad oes angen ei nodi).

a. cywiro camgymeriadau neu anomaleddau yn y ddeddfwriaeth;

b. sicrhau y byddai'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chydgrynhoi yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Gallai hyn gynnwys ymgorffori effaith cyfraith achosion sydd wedi sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth bresennol yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn; neu ddiwygio neu hepgor darpariaeth

sy'n bodoli eisoes neu wneud darpariaeth newydd pan fo'n glir bod angen newid o'r fath i sicrhau bod y gyfraith yn gydnaws â'r Confensiwn;

c. darparu y bydd y ddeddfwriaeth sydd wedi'i chydgrynhoi yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â Chymru gan ystyried unrhyw faterion trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr;

## Enghraifft:

- wrth gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr, cafodd y gyfraith ei hatgynhyrchu ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Roedd y ddwy Ddeddf yn darparu terfyn tiriogaethol ar gyfer arfer swyddogaethau ac yn darparu ar gyfer rhai materion trawsffiniol.

d. sicrhau cysondeb yn nhestun Cymraeg a thestun Saesneg y Bil a rhwng y testunau hynny;

e. symud darpariaethau o is-ddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol (ac weithiau o ddeddfwriaeth sylfaenol i is-ddeddfwriaeth) neu newid ffurf is-ddeddfwriaeth neu'r weithdrefn sy'n berthnasol iddi, i wella cysondeb neu gydlyniad y corff perthnasol o ddeddfwriaeth;

## Enghreifftiau:

- pan fo darpariaethau ynghylch mater penodol wedi'u cynnwys yn rhannol mewn deddfwriaeth sylfaenol ac yn rhannol mewn is-ddeddfwriaeth, efallai y byddai'n briodol symud darpariaethau o un lefel i'r llall, fel bod popeth sy'n ymwneud â'r mater hwnnw yn yr un lle. Er enghraifft, os yw rheoliadau neu orchmynion yn ymdrin â mater pwysig sy'n effeithio ar sut y mae'r ddeddfwriaeth yn gweithio, efallai y byddai'n fwy priodol ailddatgan y deunydd o'r rheoliadau neu'r gorchmynion yn y Bil;
- pan fo pŵer i ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i addasu'r ffordd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithio, a bod yr holl addasiadau angenrheidiol eisoes wedi'u gwneud, efallai y byddai'n briodol ymgorffori'r addasiadau wrth ailddatgan y ddeddfwriaeth sylfaenol, ac efallai na fydd angen y pŵer i wneud addasiadau;

- pan fo ffurflenni neu fanylion eraill yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, efallai y byddai'n briodol darparu ar eu cyfer mewn rheoliadau yn lle hynny, yn enwedig os yw'n debygol y bydd angen eu diweddaru'n rheolaidd. Neu efallai y byddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i bobl ddefnyddio ffurflenni a gyhoeddir gan Weinidogion neu gyrff cyhoeddus eraill, yn hytrach na chynnwys y ffurflenni mewn deddfwriaeth;
- yn lle pwerau i wneud cyfarwyddiadau cyffredinol (yn hytrach na chyfarwyddiadau sy'n cyfeirio at unigolion penodol), efallai y byddai'n briodol cyflwyno pwerau i wneud rheoliadau;
- pan nad yw'r pŵer presennol i wneud is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd, ond y byddai disgwyl i bŵer o'r fath fod ynghlwm wrth un o weithdrefnau'r Senedd erbyn hyn, gall Bil Cydgrynhoi ailddatgan y pŵer a nodi'r weithdrefn briodol. Caiff Bil Cydgrynhoi hefyd gael gwared ar anghysondebau ac anomaleddau eraill mewn darpariaethau gweithdrefnol.

# Rheol Sefydlog 26C.2(v)

Caiff Bil Cydgrynhoi wneud newidiadau eraill i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn argymell y byddai'n briodol eu cynnwys mewn Bil Cydgrynhoi

**11.** O dan Reol Sefydlog 26C.2(v) gellir cynnwys newidiadau i'r gyfraith nad ydynt yn dod o fewn paragraffau eraill y Rheol Sefydlog honno mewn Bil Cydgrynhoi ar argymhelliad Comisiwn y Gyfraith. Er mwyn i newid gael ei wneud o dan baragraff (v), rhaid i Gomisiwn y Gyfraith nid yn unig argymell bod y newid yn cael ei wneud, ond rhaid iddo hefyd nodi'r newid fel un y byddai'n briodol ei wneud mewn Bil Cydgrynhoi.

**12.** Nid yw paragraff (v) yn golygu y gellir defnyddio Biliau Cydgrynhoi i weithredu pob cynnig i ddiwygio'r gyfraith a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith. Dim ond ymdrin â newidiadau i'r gyfraith y byddai'n gyfleus eu gwneud ar yr un pryd â chydgrynhoi'r gyfraith bresennol yw'r bwriad. Ni ddylai newidiadau o'r fath gynnwys newid sylweddol o ran polisi ac ni ddylent fod yn ddadleuol. Gallai enghreifftiau o'r math hwn o newid gynnwys diwygio cyfres o ofynion

gweithdrefnol i sicrhau eu bod yn gweithio'n well yn ymarferol, neu eu symleiddio i gael gwared ar gamau diangen o'r weithdrefn.

## Rheol Sefydlog 26C.2(vi)

Caiff Bil Cydgrynhoi gynnwys darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed priodol, diwygiadau canlyniadol a diddymu darnau o ddeddfwriaeth bresennol (gan gynnwys diwygiadau i sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i weithredu'n gywir mewn perthynas â Lloegr);

**13.** Mae Rheol Sefydlog 26C.2(vi) yn cynnwys:

a. gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth nad yw wedi'i hymgorffori, neu sydd wedi'i hymgorffori'n rhannol yn unig, yn y Bil Cydgrynhoi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y ddeddfwriaeth sydd ar ôl yn parhau i weithredu'n foddhaol heb unrhyw newid mewn effaith gyfreithiol (neu ddim mwy o newid na'r hyn sy'n ofynnol yn sgil cydgrynhoi'r gyfraith). Gall olygu gwneud diwygiadau helaeth i'r ddeddfwriaeth i ddileu darpariaethau sy'n gymwys i Gymru a'i gwneud yn glir mai dim ond i Loegr y bydd rhai o'r darpariaethau, neu'r holl ddarpariaethau, yn gymwys yn y dyfodol;

b. darparu pŵer i wneud rhagor o ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sydd eu hangen o ganlyniad i'r cydgrynhoi;

c. diddymiadau sydd eu hangen yn sgil cydgrynhoi, gan gynnwys diddymu darpariaethau anarferedig a darfodedig, a gwelliannau a diddymiadau a fethwyd (h.y. rhai y dylid bod wedi'u cynnwys mewn Deddfau cynharach);

d. darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed.

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon